**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**13 Chwefror 2017**

**ADNODDAU YN ÔL RISG**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd y cynllun treialu "sicrhau bod adnoddau'n cyfateb i'r risg" sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Cefndir**

2 Yn 2014, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal adolygiad o ofal tân a oedd yn talu sylw i alwadau tân, pa mor ddifrifol ydynt, eu lleoliad a'r adegau o'r dydd y mae'r galwadau hyn yn digwydd. Canlyniad hyn oedd adroddiad yn dynodi lefelau o risg cymharol ledled Gogledd Cymru. Cyflwynwyd y dystiolaeth i Weithgor y Cynllun Gwella, a fu'n cyfarfod dros gyfnod o fisoedd hyd at Fehefin 2015, er mwyn iddynt ddadansoddi canfyddiadau'r adolygiad.

3 Casgliad yr adolygiad o ofal tân oedd nad y prif ganolfannau poblogaeth bob amser yw'r ardaloedd sydd â'r risg mwyaf o danau mewn cartrefi, ac nad yw lefel y risg yn sefydlog a'i fod yn gallu amrywio yn ôl yr adeg o'r dydd. Fe wnaeth yr adolygiad ysgogi Gweithgor y Cynllun Gwella i argymell 'sicrhau bod adnoddau'n cyfateb i'r risg' fel y trydydd amcan yng Nghynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2016/17.

4 Mae’r cysyniad o baru adnoddau a risg yn seiliedig ar ganlyniadau’r adolygiad o ofal tân a oedd yn nodi bod risg yn amrywio yn ôl yr adeg o’r dydd. Gyda’r nos ac yn ystod y nos, pan fo pobl yn cysgu, mae risg tân ar lefel uwch nag yn ystod y dydd. Felly, gellid darparu’n ddigonol ar gyfer y risg tân yng Ngogledd Cymru drwy sicrhau bod o leiaf 20 o injanau tân ar gael yn ystod y dydd, pan welwyd bod y risg yn is, a bod o leiaf 38 o injanau tân ar gael gyda’r nos ac yn ystod y nos, pan fo’r risg yn cynyddu.

## Gwybodaeth

5 Ar ôl cael cymeradwyaeth yr aelodau, drwy broses y cynllun gwella, i symud at y meini prawf newydd hyn yn ymwneud ag argaeledd, dechreuodd y Gwasanaeth dreialu’r model ym mis Ebrill 2016.

6 Cyfrifoldeb y rheolwr argaeledd a thîm rheoli’r ystafell reoli (CMT) yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn Llanelwy yw rheoli’r argaeledd o ddydd i ddydd. Rôl y CMT yw cynllunio’n ganolog a lleoli diffoddwyr tân ar orsafoedd yn ddyddiol er mwyn cael gorsafoedd y system RDS i fod ar gael fwy wrth i’r amrywiadau ddigwydd yn ddyddiol.

7 O ddydd i ddydd, mae’r rheolwr argaeledd a’r CMT yn defnyddio gwahanol opsiynau i ddarparu o leiaf 20 o injanau tân ar gyfer Gogledd Cymru. Dyma’r opsiynau a ddefnyddir:

- diffoddwyr tân gwledig y system dyletswydd amser cyflawn (WDSR); cafodd y diffoddwyr tân hyblyg arloesol hyn eu cyflwyno yn 2014 ac mae ganddynt gontractau hyblyg sy’n gwarantu o leiaf 21 awr ac uchafswm o 42 awr yr wythnos. Caiff y diffoddwyr tân eu lleoli’n ddyddiol ar orsafoedd y system RDS ledled y rhanbarth i ategu’r criw RDS ar y gorsafoedd hynny

- diffoddwyr tân y system dyletswydd amser cyflawn (WDS), sy’n gwirfoddoli i ddarparu oriau ychwanegol pan fyddant oddi ar ddyletswydd – caiff y diffoddwyr tân yma eu lleoli’n ddyddiol yn yr un ffordd â’r diffoddwyr tân WDSR

- mae diffoddwyr tân y system RDS o orsafoedd RDS sydd dros ben ar eu gorsafoedd eu hunain, neu sydd yr unig ddiffoddwyr tân ar gael ar eu gorsafoedd eu hunain, yn cael eu lleoli ar orsafoedd RDS cyfagos i ychwanegu at y criw yn yr orsaf gyfagos

- diffoddwyr tân WDS sydd ar ddyletswydd ac sy'n ychwanegol at y 5 diffoddwr tân sydd ei angen i gael y criw gorau posibl ar wylfeydd WDS. Er enghraifft, os oes 6 diffoddwr tân ar ddyletswydd rhyw ddiwrnod gall 1 o'r diffoddwyr tân hynny gael ei leoli ar orsaf RDS i greu criw

- defnyddir criwiau wrth gefn o orsafoedd sydd ar gael er mwyn gofalu am ardaloedd lle mae argaeledd dan fygythiad er mwyn sicrhau bod gofal tân yn cael ei ddarparu'n strategol ledled y rhanbarth.

8 Drwy ddefnyddio'r opsiynau hyn, mae'r Gwasanaeth wedi gallu cadw'r 20 o leiaf o injanau tân ar gael ledled y rhanbarth bob dydd yn ystod y cynllun treialu. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld drwy ei bod, drwy gydol mis Rhagfyr, yn fwy o her i sicrhau bod o leiaf 38 o injanau tân ar gael, a hynny oherwydd nifer diffoddwyr tân y System RDS a oedd yn cymryd gwyliau yn ystod y mis, dyfodiad y gaeaf a salwch, a'r amser rhwng diffoddwyr tân yn gadael y System RDS a recriwtio i'r System RDS.

9 Er mwyn cael diffoddwyr tân yn lle'r rhai sydd wedi gadael, cynhaliwyd proses recriwtio a'i rhoi ar waith mewn tri cham. Mae Cam 1 newydd ddod i ben, gyda 30 o ddiffoddwyr tân newydd wedi cael eu hyfforddi ac yn ymuno â gorsafoedd RDS ddiwedd mis Ionawr 2017. Mae'n bosibl y bydd ail a thrydydd cam y broses recriwtio yn gallu lleoli 120 o ddiffoddwyr tân eraill ar orsafoedd erbyn Gorffennaf 2017, gan sicrhau bod y gorsafoedd hynny ar gael fwy gyda'r nos ac yn ystod y nos.

## Argymhelliad

10 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarperir.